**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**
**DYDD MAWRTH, 11 GORFFENNAF 2023**

Cofnodion cyfarfod hybrid Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 11 Gorffennaf 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Evans (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mel Buckley, Chris Dolphin, Ian Hodge, Richard Lloyd, Hilary McGuill, Mike Peers, Vicky Perfect, a Dan Rose,

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Mike Allport, Chris Bithell (Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd) a David Healey (Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi)

**DIRPRWYON:** Cynghorydd Glyn Banks ar ran y Cynghorydd Roy Wakelam

**CYFRANWYR:**
Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Strategaeth Gludiant Ranbarthol), Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Gwydn, gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael, Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog ( Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth), Rheolwr Diogelu Busnes a Chymuned, Rheolwr Tîm Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd ac Arweinydd Tîm - Safleoedd

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

**16. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad..

**17. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2023.

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod cywir, fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Ian Hodge a'r Cynghorydd Dan Rose.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd fel cofnodion cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**18. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi'r Rhaglen Waith a'r adroddiad Olrhain Camau Gweithredu.

Hysbysodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) fod yr eitemau ar Gynllun Newid a Throsi Cerbydau Allyriadau Isel Iawn Fflyd CSFf

i danwydd trydan neu amgen yr un pwnc a chytunwyd y byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor i gael ei gynnal ar 10 Hydref 2023.

Gwahoddwyd yr Aelodau i gynnig unrhyw eitem arall yr oeddent yn dymuno ei chynnwys ar y Rhaglen.

Cyfeiriodd yr Hwylusydd at adroddiad Olrhain Camau Gweithredu a dywedodd fod y camau a oedd yn weddill wedi eu cwblhau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Mike Peers ynglŷn â sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Parcio mewn Ysgolion eglurodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) unwaith y byddai aelodaeth y Grŵp yn hysbys bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu cyn gynted ag y bo modd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn amodol ar y newidiadau uchod;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 19. CYNLLUN GWASANAETH BWYD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr adroddiad i gyflwyno'r Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2023/24 ar gyfer ystyriaeth a chymeradwyaeth. Rhoddodd wybodaeth gefndir a thalodd deyrnged i waith y Tîm Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd yn ystod y pandemig Covid. Dywedodd y Prif Swyddog fod y Cynllun Gwasanaeth Bwyd yn darparu trosolwg o'r Gwasanaeth Bwyd yn unol â'r Cytundeb Fframwaith ar Reolau Bwyd a Phorthiant Swyddogol gan Awdurdodau Lleol Ebrill 2010. Roedd y cynllun yn nodi nodau ac amcanion y Gwasanaeth am y flwyddyn nesaf a sut y byddent yn cael eu cyflawni.

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes a Diogelu Cymunedol yr adroddiad a chyfeiriodd at y prif ystyriaethau. Dywedodd y Rheolwr Tîm - Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd am y prif gyflawniadau ar gyfer 2022/23 a'r targedau ar gyfer 2023/24 fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at dudalen 20 o'r adroddiad, targedau ar gyfer 2023/24 a thudalen 59 a nifer o archwiliadau a drefnwyd ar gyfer Safonau Bwyd a Hylendid Bwyd yn 2023/24 a dywedodd y byddai'n ddefnyddiol os byddai'r nifer o ymchwiliadau a gynhaliwyd yn 2023/24 yn cael ei amlygu a darparu manylion. Hefyd, cyfeiriodd at y prif gyflawniadau ar gyfer 2022/23 ar dudalen 20 a'r pwynt bwled 'Roedd nifer sylweddol o arolygon Bwyd wedi eu cyflawni yn ystod blwyddyn oedd wedi gweld adnoddau ar gyfer arolygon Bwyd Fferm wedi'i effeithio gan y firws Ffliw Adar' a dywedodd nad oedd yn defnyddio'r gair "Pob un" fel mewn categorïau eraill. Gofynnodd a oedd y targedau ar gyfer 2023/24 yn cyfrannu at yr ôl-groniad o waith oedd yn weddill.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at dudalen 26 o'r adroddiad, adran 1.2 yn cysylltu i Amcanion a Chynlluniau Corfforaethol a gofynnwyd sut oedd y Cynllun Gwasanaeth Bwyd yn ymwneud â'r maes blaenoriaeth 'Tai Fforddiadwy a Hygyrch'.

Ymatebodd y Rheolwr Diogelu Busnes a'r Gymuned i'r sylwadau a'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Peers ac eglurodd y cysylltiadau i Gynllun y Cyngor 2023-28.

Mewn ymateb i'r cwestiwn a godwyd gan y Cynghorydd Peers o amgylch llwyth gwaith y Rheolwr Tîm - Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd, cyfeiriodd at y data a ddarparwyd ar dudalen 62, atodiad 3 a'r nifer o arolygon bwyd a drefnwyd a chyflawnwyd. Hefyd, rhoddodd eglurhad am adnoddau a dyrannu staff fel y manylwyd yn Adran 4 o'r Cynllun. Eglurodd y Rheolwr Tîm fod y gwaith oedd yn hwyr yn risg isel yn bennaf a byddai'n cael ei flaenoriaethu yn dilyn asesiad risg ac roedd gwybodaeth leol wedi'i manylu yn Atodiad 2 o'r Cynllun. Mewn ymateb i gwestiwn pellach gan y Cynghorydd Peers, dywedodd sut y byddai categorïau risg yn cael eu blaenoriaethu ac yn derbyn sylw. Roedd y Rheolwr Diogelu Busnes a'r Gymuned a'r Rheolwr Tîm wedi rhoi sicrwydd ac eglurhad ynglŷn â gallu a phrofiad y Gwasanaeth i ddelio gydag achosion brys neu argyfwng.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hilary McGuill, dywedodd y Rheolwr Diogelu Busnes a'r Gymuned os byddai perchennog newydd yn cymryd drosodd busnes bwyd, yna eu cyfrifoldeb nhw oedd sicrhau bod eu staff wedi eu hyfforddi yn addas i ymgymryd â'r gwaith. Amlinellodd y Rheolwr Tîm - Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd y cyngor a'r gefnogaeth a ddarparwyd i fusnesau newydd. Hefyd, ymatebodd y Rheolwr tîm i'r cwestiwn pellach a godwyd gan y Cynghorydd McGuill yn ymwneud â rheoliadau a safonau oedd yn berthnasol i allfeydd bwyd cyflym symudol.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Mike Peers ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ian Hodge.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2023-24.

## 20. ADOLYGU RHWYSTR MYNEDIAD – LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad i hysbysu'r adolygiad diweddar i rwystrau mynediad ar draws Llwybr Arfordir Cymru (Adran Caer i Lannau Dyfrdwy) a cheisio cymeradwyaeth i weithredu'r argymhellion.

Rhoddodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir ac adroddodd ar y prif ystyriaethau ac argymhellion arfaethedig, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad. Eglurodd fod y Cyngor wedi penodi ymgynghorydd i gynnal adolygiad o'r mesurau rheoli mynediad presennol ar waith ar adran o Lwybr Arfordir Cymru (LlAC) rhwng Caer a Queensferry. Roedd y rhwystrau rheoli mynediad ar waith i ddiogelu defnyddwyr LlAC yn erbyn y perygl a gyflwynir gan fynediad cerbyd anghyfreithlon i'r llwybr, fodd bynnag, mae'r rhwystrau presennol yn gallu achosi materion mynediad i ddefnyddwyr rhai sgwteri symudedd a beiciau

anghonfensiynol. Roedd yr astudiaeth yn adolygu'r cyd-destun cefndir, deddfwriaethau, dimensiynau rhwystr a chyfyngiadau defnyddwyr er mwyn cyflwyno argymhellion ar gyfer pob un o'r 14 pwynt mynediad o Gaer i Lannau Dyfrdwy. Yr argymhellion i wella mynediad yn cael ei gydbwyso yn erbyn unrhyw effaith addasiadau o'r fath ar hygyrchedd cerbydau anghyfreithlon.

Ymatebodd swyddogion i'r sylwadau a'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Richard Lloyd ynglŷn â rhwystrau mynediad, mynediad i'r anabl, sgwteri symudedd, sgwteri trydan, allweddi radar a defnydd anghyfreithlon a gwrth-gymdeithasol.

Roedd y Cynghorydd Glyn Banks hefyd yn codi pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol a brawychus gan rai defnyddwyr/grwpiau yn ardal Talacre oedd yn difetha mwynhad llwybr yr arfordir i eraill.

Roedd y Cynghorydd Mike Peers yn argymell fod y Cyngor yn ymgysylltu gyda'r grwpiau defnyddwyr y cyfeirir atynt yn yr Adolygiad. Hefyd, gofynnodd a oedd yna gysylltiad gydag awdurdodau lleol eraill i ddysgu sut oedden nhw yn mynd i'r afael â materion problemus. Eglurodd yr Arweinydd Tîm - Safleoedd bod yna gysylltiadau agos gydag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru fel rhan o Lwybr yr Arfordir Gogledd Cymru. Dywedodd fod gan Gyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb cyffredinol am Lwybr yr Arfordir ac roedd yn gweithio i wella'r llwybr troed i bobl gyda materion symudedd. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi argymhellion yn adroddiad yr Adolygiad i wella hygyrchedd.

Roedd y Cynghorydd Dan Rose yn mynegi pryderon am ddiben a gweithrediad allweddi radar oedd yn dweud a allai fod yn rhwystr i rai defnyddwyr. Roedd yn teimlo fod y defnydd o fframiau A a'r syniad o bobl gydag anableddau yn gorfod agor a chau giât bob tro yn gallu bod yn broblemus. Dywedodd fod yna risg o bobl yn gadael giatiau yn agored gydag allweddi radar ac roedd yn teimlo ei fod yn bwysig cynnal peilot i asesu goblygiadau wrth symud ymlaen. Awgrymodd mai datrysiad dros dro ar gyfer problemau oedd yn codi yn annisgwyl oedd bod giât yn cael ei chloi dros dro (er enghraifft dros nos). Gofynnodd y Cynghorydd Rose a ellir darparu data ar y nifer o lwybrau nad oedd yn caniatáu mynediad i'r anabl.

Ymatebodd yr Arweinydd Tîm - Safleoedd i'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Rose ar y defnydd o allweddi radar a dywedodd y byddai'n darparu gwybodaeth ar y nifer o lwybrau nad oedd yn caniatáu mynediad i'r anabl yn Sir y Fflint.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Johnson at y math o giât mochyn a ddefnyddir yn Ystâd Chatsworth House yn Swydd Derby a all gynnig mynediad i gadeiriau olwyn a sgwteri symudol a gallai fod yn werth ei ystyried.

Gofynnodd y Cynghorydd Ian Hodge a roddwyd ystyriaeth i arwyneb y Llwybr a pha fesurau a ellir eu defnyddio i atal cyflymer. Eglurodd yr Arweinydd Tîm - Safleoedd mewn ardaloedd eraill nad oedd ganddynt fynediad symudedd, roedd newidiadau wedi eu gwneud i arwyneb y llwybr ond nid oedd hyn wedi ei ystyried yn Sir y Fflint hyd yma.

Roedd y Cynghorydd Richard Lloyd yn gwneud sylw ar pa un a oedd ymgynghori wedi digwydd gyda Chyngor Gorllewin Sir Gaer. Roedd yn cefnogi'r awgrym gan y Cynghorydd Mike Peers y dylai ymgynghori pellach ddigwydd gyda grwpiau defnyddwyr.

Roedd y Cynghorydd Mike Peers yn cynnig bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei newid fel a ganlyn: Bod y Pwyllgor yn nodi canfyddiadau Adolygiad Rhwystr Llwybr Arfordir Cymru ac yn cefnogi, mewn egwyddor, yr argymhellion i wella hygyrchedd, fel y manylwyd yn yr adroddiad, yn amodol ar ymgynghori gyda'r grwpiau defnyddwyr, a bod adroddiad pellach ar y canlyniad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Eiliodd y Cynghorydd Richard Lloyd y cynnig a phan gafwyd pleidlais, cymeradwywyd hyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi canfyddiadau Adolygiad Rhwystr Llwybr Arfordir Cymru ac yn cefnogi, mewn egwyddor, yr argymhellion i wella hygyrchedd, fel y manylwyd yn yr adroddiad, yn amodol ar ymgynghori gyda'r grwpiau defnyddwyr, a

(b) Bod adroddiad pellach ar ganlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

## 21. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) yr adroddiad i adolygu'r lefelau cynnydd o ran cyflawni gweithgareddau a lefelau perfformiad a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor. Dywedodd fod Cynllun y Cyngor 2022/23 wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2022. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno crynodeb o berfformiad cynnydd yn erbyn blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a nodwyd ar gyfer 2022/23 ar ddiwedd y flwyddyn (Ch4) sefyllfa sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi.

Roedd yr adroddiad sefyllfa derfynol ar gyfer Cynllun y Cyngor 2022/23 yn dangos bod 78% o weithgareddau'n gwneud cynnydd da. Roedd 61% o'r dangosyddion perfformiad wedi cyrraedd neu ragori eu targedau, roedd 11% yn cael eu monitro'n agos ac nid oedd 25% yn cyrraedd y targed ar hyn o bryd. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar eithriadau ac yn canolbwyntio ar y meysydd perfformiad nad oedd yn cyflawni eu targedau ar hyn o bryd.

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) am y gweithgareddau oedd yn dangos statws (COG) coch ar gyfer perfformiad presennol yn erbyn targed perthnasol i Wasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth fel y manylwyd yn adran 10.5 o'r adroddiad, Blaenoriaeth - Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd, is-flaenoriaeth - Economi Gylchol.

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) am y gweithgareddau oedd yn dangos statws (COG) ar gyfer perfformiad presennol yn erbyn targed perthnasol i Gynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi fel y manylwyd yn adran 1.05 o'r adroddiad, Blaenoriaeth - Economi, is-flaenoriaeth - Busnes.

Roedd y Prif Swyddog hefyd yn adrodd ar y mesurau dangosyddion perfformiad oedd yn dangos statws (COG) coch ar gyfer perfformiad yn erbyn y targed a osodwyd ar gyfer 2022/23, yn berthnasol ar gyfer Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi fel y manylwyd yn adran 1.08 o'r adroddiad. Cyfeiriodd at y Flaenoriaeth - Cymdeithas Werdd a'r Amgylchedd, is-flaenoriaeth - Carbon Niwtral/Ynni Adnewyddadwy a'r Flaenoriaeth - Economi, is-flaenoriaeth - Lleihau Diweithdra.

Roedd y Cynghorydd Mike Peers yn cyfeirio at y targed ar gyfer ailgylchu ac yn gofyn a oedd yna gosb os nad oedd targedau yn cael eu cyflawni. Hefyd, cyfeiriodd at yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff ac Ailgylchu Iard Safonol a ddefnyddir ar gyfer storio loriau graeanu a gofynnwyd a oedd gan y Cyngor drwydded weithredu i storio'r cerbydau yn y safle.

Gofynnodd y Cynghorydd Peers gwestiynau ar y canlynol:-

- Tudalen 155: is-flaenoriaeth - Busnes - Cefnogi busnesau bach a/neu lleol i ymgysylltu â chyfleoedd caffael y sector cyhoeddus. Dywedodd y Cynghorydd Peers nad oedd unrhyw eglurhad o ran pam nad oedd cyfleoedd i ddarparu digwyddiadau cadwyn gyflenwi yn cyflwyno eu hunain yn ystod 2022/23.
- tudalen 172: Cyflawni Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gyda chanolbwynt ar sicrhau gwell mynediad i bawb a hyrwyddo Cerdded er Budd Iechyd - 100% wedi'i gwblhau. Gofynnodd y Cynghorydd Peers a oedd holl lwybrau a chynnal a chadw wedi eu cynnwys ac nid oedd unrhyw gyfyngiadau.
- tudalen 176: datblygu rhwydwaith gwefru ceir trydan y Sir. Gofynnodd y Cynghorydd Peers beth oedd y cynllun ar gyfer Sir y Fflint yn y dyfodol.

Ymatebodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) i'r sylwadau a'r cwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Peers a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa bresennol ynglŷn â pherfformiad ailgylchu, cyflawni'r targedau a chanlyniadau statudol, Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff ac Ailgylchu Iard Safonol a storio loriau graeanu a gwefru cerbydau trydan.

Ymatebodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i'r cwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Peers ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac eglurodd fod y rhaglen waith ar gyfer 2022/23 i wella llwybrau wedi'i chyflawni 100%. Roedd y Prif Swyddog hefyd wedi darparu gwybodaeth bellach mewn ymateb i'r cwestiwn yn ymwneud â chynnwys prosiectau cyfalaf.

Roedd y Cynghorydd Glyn Banks yn mynegi pryderon am danberfformiad ar gyflawni targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru a dywedodd ei fod yn teimlo y gellir gwneud mwy o gynnydd ar y gwasanaethau canlynol: Casgliadau AHP i leihau gwastraff yn cael ei anfon i Barc Adfer, gorfodi a gwastraff bwyd yn y biniau, codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion ynglŷn ag ailgylchu ac ymestyn casgliadau biniau brown i 12 mis.

Roedd y Cynghorydd Mike Peers yn cynnig bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei newid fel a ganlyn: Bod y Pwyllgor yn nodi'r lefelau o gynnydd o fewn Cynllun y Cyngor 2022/23 yn hytrach na chefnogi a bod y Pwyllgor yn nodi'r perfformiad cyffredinol yn erbyn perfformiad Cynllun y Cyngor 2022/23.

dangosyddion/mesurau. Roedd y Cynghorydd Peers hefyd yn gofyn i drydydd argymhelliad gael ei gynnwys i nodi'r eglurhad a roddwyd i'r meysydd hynny o danberfformiad. Cafodd yr argymhellion diwygiedig eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Mike Peers ac Ian Hodge.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Bod y lefelau cynnydd fel y manylwyd o fewn Cynllun y Cyngor 2022/23 yn cael eu nodi;

(b) Bod y perfformiad cyffredinol yn erbyn dangosyddion/mesurau Cynllun y Cyngor 2022/23 yn cael eu nodi; a

(c) Bod yr eglurhad a roddwyd ar gyfer y meysydd hynny sy'n tangyflawni yn cael ei nodi.

**22. <u>AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL</u>**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.32am)

..................................................

**Chairman**